



## **CYNGHORYDD TREF yn cael swydd maer yn ‘rhithwir’ ar yr ail gynnig.**

Y Cyngorydd Diane King, sy’n cynrychioli Ward Pendyffryn ar Gyngor Tref y Rhyl, yw maer newydd y dref. Dim ond nifer fechan o westeion a allai ymuno â’r Cyngorydd King yn bersonol ar gyfer y seremoni swyddogol, gyda mwyafrif y cyngor yn gwyllo ar Zoom.

Cyn-ddarlithydd yng Ngholeg Llandrillo, roedd y Cyngorydd King i fod i gymryd drosodd gan y Cyngorydd Ellie Chard ym mis Mai y llynedd. Fodd bynnag, fe wnaeth y pandemig hi’n amhosibl i’r cyngor drefnu seremoni ffurfiol dan reoliadau’r cyfnod clo. Yn lle hynny, arhosodd y Cyngorydd Chard yn y swydd am ail flwyddyn.

Dyweddodd y Cyngorydd King, cyngorydd ers 2017: “Rwyf mor falch o ddod yn faer o’r diwedd – mae wedi bod werth aros. Ni allem gael seremoni hollol normal eleni, ond cawsom gyfarfod a oedd yn rhithiol gyda chynghorwyr yn gwyllo ar Zoom a nifer fechan o westeion a staff yn cadw pellter cymdeithasol gyda mi yn siambr y cyngor.

**Mwy/...**



“Mae bod yn faer yn anrhydedd mawr a hoffwn ddiolch i fy nghyd-aelodau am ymddiried yn of i gynrychioli ein cymuned. Hoffwn hefyd dalu teyrnged i’r Cynghorydd Chard am ei hymroddiad gwych ac am gytuno aros fel maer am gyfnod arwyddocaol hirach nag y rhagwelwyd.”

Wedi ei geni a’i magu yn y Rhyl, dywedodd y Cynghorydd King, sydd â dau fab, Marc a Paul, ei bod yn gobeithio canolbwyntio ar barhau gyda datblygiad y Rhyl yn ystod ei blwyddyn yn y swydd.

Meddai’r Cynghorydd King: “Ni wnes erioed ddychmygu y buaswn yn cael fy ethol fel maer, yn enwedig ar ôl bod yn gynghorydd am gyfnod byr. Yn ystod fy nghyfnod yn y swydd, rwyf eisiau gweld y Rhyl yn ffynnu. Mae datblygiad lledled y dref, i mewn i’r pen dwyreiniol.

“Mae newid yn cymryd amser, ac rydym wedi gweld llawer o ddatblygiadau yn y blynyddoedd diwethaf gyda phopeth – y gymuned, twristiaeth, busnesau a llety – yn cael eu cynnwys. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen yn arbennig at weld pobl yn dechrau dod yn barod i ddod allan a mwynhau eu hunain unwaith eto.”

Elusennau’r Cynghorydd King ar gyfer y flwyddyn fydd Cymdeithas Alzheimer, er cof am ei diweddar â Harold, a’r RNLI. “Am bedair blynedd, gofalais am fy ngŵr, a oedd â dementia, felly roedd Cymdeithas Alzheimer bob amser yn mynd i fod yn un o fy mhrif elusennau. Wrth gael fy magu yn y Rhyl, sylwedolais pa mor werthfawr yw’r RNLI a phwysigrwydd bod yn ddiogel yn y dŵr. Mae’r elusennau yma yn bwysig, ac rwy’n falch o allu eu cefnogi,” ychwanegodd.

Dywedodd y Cynghorydd King ei bod yn falch iawn o gael ei chefnogi gan ei chydymaith, y cyd-gynghorydd tref Peter Prendergast, a’r dirprwy faer, y Cynghorydd Jacquie McAlpine, sy’n cynrychioli Ward Bodfor. Cydymaith y Cynghorydd McAlpine yw Charlotte Taylor Smith. Caplan y maer yw’r Tad Charles Ramsay o Eglwys y Santes Fair.

## Diwedd

